# YSGOL GYNRADD CREIGIAU

# POLISI CYMRAEG ( YR ADRAN GYMRAEG )

## 1 Cyflwyniad

Mae i iaith le allweddol yn y broses o ddysgu ac mae disgyblion yn datblygu eu hiaith ac yn estyn eu gwybodaeth yr un pryd. Sylfaenwyd y polisi hwn ar ofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru 2008 i blant Cyfnod Allweddol 2 ac ar y Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7oed i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ogystal a'r arfer dda sy'n bodoli eisoes mewn ysgolion. Dylid addysgu rhaglen astudio pob cyfnod allweddol i'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion sydd yn y cyfnod allweddol, a hynny mewn ffordd sy'n briodol a chydnaws a'u datblygiad a'u galluoedd.

## 2 Amcanion

Ein hamcanion wrth ddysgu Cymraeg yw y bydd pob plentyn yn:

- ü datblygu'r sgiliau angenrheidiol i ddefnyddio'r iaith yn hyderus, yn bwrpasol ac yn gywir hyd at eithaf ei allu ymhob rhan o'r cwricwlwm
- ü gallu siarad yn glir, yn rhugl ac yn effeithiol
- ü gwrando gyda dealltwriaeth a chydymdeimlad
- ü darllen a gwerthfawrogi amrywiaeth o ddeunyddiau
- ü ysgrifennu'n effeithiol ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd

## 3 Egwyddorion Addysgu a Dysgu Cymraeg

Mae Cymraeg yn bwysig oherwydd mae'n rhan annatod o'n treftadaeth a thrwy ei dysgu rydym yn helpu i ddiogelu ein treftadaeth. Bydd y plant yn datblygu'n ddwyieithog ac yn manteisio o hynny. Bwriad y Cwricwlwm Cenedlaethol yw sicrhau bod y plant yn gallu gweithredu yr un mor effeithiol yn y ddwy iaith. Rhoddir sylw i gydberthynas Cymraeg a Saesneg wrth ystyried llythrennedd deuol ond rhaid derbyn bod angen mwy o sylw ar y Gymraeg gan mai lleiafrif sydd yn dod o gartrefi Cymraeg.
Wrth ddysgu Cymraeg, ceisiwn sicrhau

- ü ehangder a chydbwysedd
- ü gwahaniaethu
- ü perthnasedd
- ü dilyniant a pharhad

Mae Cymraeg yn bwnc craidd yn y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008, ac yn un o'r chwe' maes yn y Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7oed (Cyfnod Sylfaen), sef Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Rhennir y pwnc yn dair rhan

- ü Llafar
- ü Darllen
- ü Ysgrifennu

Ac wrth ddysgu ac addysgu'r elfennau hyn bydd yr athrawon yn darparu cyfleoedd priodol a phwrpasol a fydd yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu a defnyddio:

Sgiliau meddwl, rhif, cyfathrebu a Thechnoleg Gwybodaeth

## 4 Strategaethau Dysgu

Trefnir y Cwricwlwm Cymraeg trwy ddilyn rhaglen o themau drwy'r ysgol. Bydd dysgu 'ffurfiol' yn cynnwys cyfnodau arbennig wedi eu clustnodi ar gyfer gwaith llafar, darllen ac ysgrifennu. Bydd dysgu 'anffurfiol' yn digwydd wrth i'r iaith gael ei defnyddio mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Ni ellir amcangyfrif yr amser a glustnodir ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg.

Wrth addysgu, defnyddir amrywiaeth o waith dosbarth, grŵp, pâr, unigol – yn ôl gofynion y dasg. Addysgir yn ôl y 3 elfen fel y nodwyd eisoes, gan geisio sicrhau cyfleoedd i

**LLAFAR**

- ü "gyfleu eu hanghenion, eu teimladau a'u meddyliau, ailadrodd profiadau, a thrafod gweithgareddau chwarae unigol a gweithgareddau chwarae mewn grŵp
- ü gyfeirio at eu bwriadau trwy ofyn cwestiynau, lleisio/mynegi barn, a gwneud dewisiadau trwy amrywiaeth o gyfryngau a thrwy adeiladu ar brofiadau blaenorol
- ü i wrando ar eraill ac ymateb iddynt, ynghyd ag ymateb i'r amrywiaeth o brofiadau bywyd y mae eu cyfoedion yn eu cyfrannu i'r amgylchedd dysgu, ac i ystod o symbyliadau gan gynnwys deunyddiau clywedol a meddalwedd rhyngweithiol TGCh" Fframwaith 3-7 Cyfnod Sylfaen

.

- ü "ddatblygu i fod yn siaradwyr hyderus, trefnus a diddorol wrth weithio fel unigolion ac aelodau o grŵp.
- ü gymryd rhan mewn gweithgareddau drama a chwarae rôl
- ü ddatblygu i fod yn wrandawyr gweithredol ac ymatebol mewn ystod eang o sefyllfaoedd" Cwricwlwm 2008

**DARLLEN**

- ü "i ddewis a defnyddio deunyddiau darllen yn ogystal â deall y confensiynau sy'n gysylltiedig â phrint a llyfrau" Fframwaith 3-7 Cyfnod Sylfaen
- ü "brofi o ystod gynyddol eang o destunau ymestynnol a hynny ar gyfer mwynhad a datblygu gwybodaeth, er mwyn iddynt ddatblygu'n ddarllenwyr rhugl ac effeithiol" Cwricwlwm 2008

**YSGRIFENNU**

- ü "i fwynhau gwneud marciau a mwynhau profiadau ysgrifennu" Fframwaith 3-7 Cyfnod Sylfaen
- ü "ddatblygu i fod yn ysgrifenwyr cymwys sy'n ysgrifennu'n glir a chydlynol mewn ystod o ffurfiau ac at ystod o ddibenion
- ü feithrin dealltwriaeth gynyddol o'r angen i addasu'u hiaith i gyd-fynd â

phwrpas a chynulleidfa

- ü ddatblygu cywirdeb cynyddol wrth weithio, ac yn ystyried a gwerthuso eu cyraeddiadau eu hunain a chyraeddiadau pobl eraill" Cwricwlwm 2008

## 5 Cynllunio Dilyniant a Pharhad

Yn Ysgol Creigiau rydym yn cynllunio iaith yn wythnosol yn ogystal a thymhorol. Yn y Cyfnod Sylfaen cyflwynir yr holl addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Yng Nghyfnod Allweddol 2 rydym yn cyflwyno gwersi iaith Cymraeg a Saesneg yn wythnosol.
Rydym yn cyflawni gofynion Cwricwlwm 2008, y Canlyniadau Dymunol, Cynllun Llythrennedd Sir Caerdydd a'r Continwwm Dysgu ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Cyfnod Sylfaen (Caerdydd).
Er mwyn adeiladu ar brofiadau disgyblion ymroddwn fel staff i

- ddatblygu cydweithrediad rhwng y cartref a'r ysgol.
- sicrhau cynydd disgyblion o un flwyddyn i'r llall trwy gynnal cyfarfodydd.
- bontio rhwng Ysgolion Cynradd Caerdydd.
- bontio rhwng Ysgol Creigiau ag Ysgol Plasmawr drwy gynnal cyfarfodydd yn dymhorol.
- drosglwyddo gwaith penodol i benaethiaid adrannol yr ysgol uwchradd yn ogystal ag oed sillafu'r disgyblion yn y ddwy iaith.
- adnewyddu ac addasu cynlluniau datblygiad iaith – Polisi Ysgol Gyfan, Manylion Polisi, Cynlluniau Gwaith, Taflenni cynllunio, Taflenni gwaith, Cofnod Darllen.

Yn Ysgol Gynradd Creigiau ein bwriad yw cynllunio yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Bydd iaith a phrofiad yn ehangu trwy brofiad mathemategol, gwyddonol, technegol, creadigol, daearyddol, hanesyddol, moesol a chymdeithasol.

Defnyddir map genres ysgrifennu i sicrhau datblygiad ac amrywiaeth o dymor i dymor ac o uned i uned. Dilynir y Continuwm Dysgu (3-7( a Chontinuwm dysgu CA2 er mwyn sicrhau parhad a dilyniant. Mae CYNLLUNIO CYMRAEG yn broses lle mae'r holl athrawon yn cymryd rhan.

- ü Bydd cynlluniau gwaith Cymraeg yn cael eu datblygu gan athrawon pob uned, mewn ymgynghoriad a'r arweinydd pwnc
- ü Bydd yr arweinydd pwnc yn cynnal cyfarfod staff yn dymhorol i drafod y Cwricwlwm Cymraeg ac i sicrhau cysondeb agwedd a safonau
- ü Bydd cynlluniau gwaith tymhorol ac wythnosol yn cael eu llunio gan athrawon unigol a'u monitro gan y Pennaeth, Y Dirprwy a Phennaeth yr Adran Gymraeg
- ü Bydd yr arweinydd pwnc yn casglu copi o'r cynlluniau tymhorol er mwyn eu monitro i sicrhau parhad a dilyniant

## 6 Disgyblion ag Anghenion Arbennig

Mae disgyblion ag anghenion arbennig yn cael eu nodi'n gynnar a'u gosod ar Gôd Ymarfer Anghenion Arbennig. Defnyddir gwaith gwahaniaethol yn ôl yr angen a defnyddir adnoddau dynol (cynorthwywyr a SENCO) i roi sylw pellach iddynt. Mae rhai plant yn derbyn cymorth gan y Cynorthwyydd Iaith. Weithiau mae hyn yn digwydd yn yr ystafell ddosbarth. Dro arall bydd y plant yn cael eu haddysgu mewn ystafell ar wahân.

## 7 Gwaith Cartref

Defnyddir gwaith cartref i gefnogi Cymraeg trwy dasgau sy'n cynnwys

- **ü** Gweithgareddau ieithyddol Cyswllt Cartref – Cyfnod Sylfaen
- **ü** Cynllun Darllen Cartref
- **ü** Defnydd o'r llyfrgell
- **ü** Dysgu darnau llefaru – cwis llyfrau / Eisteddfodau / Gwasanaethau Dosbarth / Cyngherddau Ysgol
- **ü** Dysgu geirfa thematig ac aml ddefnydd er mwyn eu sillafu'n gywir
- **ü** Gwaith ysgrifennu yn gysylltiedig â thema / ddiwrnod arbennig

## 8 Cyfrifoldeb Arweinydd Cwricwlwm

- **ü** Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r pwnc
- **ü** Cyd gynllunio cynlluniau tymhorol gyda'r athrawon yn ôl gofynion y cwricwlwm statudol
- **ü** Gofalu bod adnoddau penodol ar gael yn yr ysgol ar gyfer addysgu'r pwnc
- **ü** Cynorthwyo, llywio ac ysgogi athrawon i gynllunio gwersi o safon uchel sydd wedi'u gwahaniaethu ar gyfer anghenion disgyblion
- **ü** Monitro ac adrodd ar effeithiolrwydd yr addysgu a'r dysgu, a gwneud cynlluniau pellach ar gyfer gwelliant
- **ü** Gosod amcanion personol yn flynyddol (hunan werthuso) er mwyn sicrhau camau datblygiad pellach

## 9 Asesu

Gwneir asesiadau ar lawr y dosbarth, yn ôl cyraeddiadau plant ac wrth drafod. Defnyddir arsylwadau a chanfyddiadau'r athrawon ar gyfer paratoi camau addysgol priodol ar gyfer y disgyblion. Yn Ysgol Creigiau rydym yn asesu a chofnodi cyrhaeddiad ieithyddol y disgyblion drwy:

- farcio gwaith ysgrifenedig
- brofion sillafu
- wrando ar ddarllen
- gadw cofnod darllen
- drafod gyda'r rhieni
- gyflwyno adroddiad blynyddol i'r rhieni
- wrando ar ddisgyblion ( Amser Cylch)

- dadansoddi profion darllen a deallusrwydd 'Glannau Menai'
- dadansoddi profion sillafu 'Glannau Menai'
- defnyddio canlyniadau profion y sir i adnabod cryfderau/gwendidau disgyblion

Cedwir gwybodaeth am gynnydd Cymraeg y disgyblion:

- **ü** Yn nodiadau maes yr athrawon
- **ü** Yn y portffolio pwnc sy'n enghreifftio'r safonau disgwyliedig yn ôl y meini prawf
- **ü** Cofnodion darllen

Cynhelir Asesiad Crynodol Ffurfiol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a CA2 trwy gyfrwng asesiadau athrawon.

## 10 Adrodd yn ôl i rieni

Adroddir yn ôl i rieni deirgwaith y flwyddyn. Ar lafar yn nhymor yr Hydref a'r Gwanwyn, ac mewn adroddiad ysgrifenedig ac ar lafar yn nhymor yr Haf, gan gyfeirio at ddatblygiad llafar, darllen ac ysgrifennu.

## 11 Adnoddau – mewnol / allanol / llyfrgell

Cedwir adnoddau Cymraeg ym mhob ystafell ddosbarth ynghyd ac yn llyfrgell yr ysgol. Dylid cynnwys adnoddau megis

- **ü** ffuglen addas i'r oed
- **ü** llyfrau gwybodaeth
- **ü** cyfrolau barddoniaeth
- **ü** chwedlau Cymraeg ac estron
- **ü** geiriaduron
- **ü** atlasau
- **ü** adnoddau TGCh
- **ü** Beiblau / storïau o'r Beibl a llyfrau am grefyddau / diwylliannau eraill
- **ü** Papur newyddion / cylchgronau sy'n addas i oed y plant

Sicrheir cyfleoedd aml i weld adnoddau newydd wrth wahodd cwmnïoedd i arddangos eu hadnoddau yn yr ysgol e.e. Siop Y Felin

Yn ogystal rhoddir cyfleoedd aml i'r disgyblion gael profiad ehangach drwy gyfrwng y Gymraeg wrth

- **ü** wahodd cwmnïoedd drama / theatr i'r ysgol
- **ü** ymweld â mannau sydd â chysylltiadau llenyddol
- **ü** ymweld â Llangrannog
- **ü** gystadlu yn yr Eisteddfod
- **ü** gymryd rhan yn y cwis llyfrau
- **ü** wahodd awduron i'r ysgol

Fe werthusir ac adolygir y polisi hwn gan y corff llywodraethol yn flynyddol, neu yn ôl yr angen.

Arwyddwyd: Mrs.D.W.Kirkman
Dyddiad: Ionawr 2010